**Pecyn Swydd: Swyddog Cyllid**

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:

**Swyddog Cyllid**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei rhoi i'ch helpu gyda'ch cais. I gael rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru, ewch i [www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)

## Cynnwys


**Croeso .................................................................2**

**Sut mae Gwneud Cais .....................................................3**

Cymorth ar gyfer Amrywiaeth, Cynhwysiant a Mynediad ...... 3

Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg ..................................... 4

Ar ôl i chi wneud cais ........................................................ 4

**Disgrifiad Swydd Llawn ..................................................5**

**Gofynion Sylfaenol ar gyfer y Swydd ....................................7**

Gwybodaeth a Phrofiad ...................................................... 7

Profiad a Sgiliau Dymunol .................................................. 7

**Ffilm Cymru .............................................................8**

**Pecyn Swydd: Swyddog Cyllid**

# Croeso

Diolch am ddangos diddordeb yn y swydd hollbwysig hon sy'n cefnogi'r Adran Gyllid. Mae Ffilm Cymru yn gwmni uchelgeisiol ac rydym yn chwilio am weithiwr cyllid proffesiynol i weithio gyda thîm cyfeillgar o bobl.

Mae rôl unigryw Ffilm Cymru fel asiantaeth datblygu sector yn golygu ein bod ni bob amser, gyda phopeth a wnawn, yn edrych ar sut gallwn ni adeiladu sector sy'n fwy cynaliadwy, cynhwysol ac entrepreneuraidd. Gallwch weld hyn yn ein rhaglen Cymru Werdd, ein rhaglen hyfforddi arobryn, Troed yn y Drws, ac yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

Gallwch ddisgwyl i'r gwaith fod yn amrywiol ac yn werthfawr. Os ydych chi'n drefnus, yn meddu ar sgiliau gweinyddol cryf, ac yn awyddus i ddysgu, gallai'r swydd hon fod yn ddelfrydol i chi!

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

*Matthew Daniel, Prif Swyddog Gweithredu.*

**Pecyn Swydd: Swyddog Cyllid**

## Sut mae Gwneud Cais

Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat cais arall gyda chi, dylech anfon CV a llythyr eglurhaol dros e-bost at Hayley Lau yn hayley@ffilmcymruwales.com gan amlinellu pryd rydych chi ar gael, yn ogystal â sut mae eich profiad a'ch sgiliau'n cwrdd â'r Gofynion Sylfaenol a'r fanyleb swydd a amlinellir o fewn y pecyn hwn.

Defnyddiwch bennawd y pwnc: **Rôl Swyddog Cyllid.**

Cyflwynwch eich cais erbyn hanner dydd ddydd Iau 12 Medi 2024.

Nid yw Ffilm Cymru wedi'i drwyddedu i noddi dogfennau VISA felly rhaid i chi eisoes fod â hawl i weithio yn y DU er mwyn gwneud cais am y swydd hon.

Cynhelir y cyfweliadau ddydd Llun 30 Medi 2024.

**Cymorth ar gyfer Amrywiaeth, Cynhwysiant a Mynediad**
Rydym ni'n credu mewn sector sgrin sy'n gweithio i bawb ac rydym ni'n frwd dros ehangu mynediad at y sector honno.

Byddwn yn cynnig cyfweliad yn awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni ein Gofynion Sylfaenol ar gyfer y rôl ac sy'n nodi eu bod yn Bobl y Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig, neu'n unigolion B/byddar, yn drwm eu clyw, yn anabl, neu'n niwroamrywiol.

Mae cymorth ar gael i ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion B/byddar, trwm eu clyw, anabl, niwroamrywiol a phobl sydd wedi colli eu golwg. Cysylltwch â ni i ddweud sut gallwn ni helpu. Er enghraifft, gallwn dalu am

ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, darparu cymorth ysgrifenedig i ymgeiswyr dyslecsig, neu gytuno ar fformatau eraill ar gyfer gwneud cais, megis fideo byr neu gyflwyniad. Chi fydd yn ein harwain ni.

Cysylltwch â Hayley Lou yn **Hayley@ffilmcymruwales.com** i drafod eich gofynion cyn gwneud cais.

## Rhannu Swydd a Gweithio'n Hyblyg

Rydym yn agored i gynigion gweithio'n hyblyg, ond ni fyddai'n bosibl rhannu swydd yn y rôl hon oherwydd mai swydd ran-amser yw hi. Yn eich llythyr eglurhaol, rhowch fanylion eich cynnig i weithio'n hyblyg, os yw hynny'n berthnasol. Ni ddisgwylir y byddai angen gweithio ar benwythnosau neu gyda'r nos, ond gyda rhybudd digonol mae hi'n bosibl y bydd gofyniad achlysurol, a bydd TOIL (yr amser sy'n ddyledus) yn cael ei roi ar gyfer hyn.

## Ar ôl i chi wneud cais

Byddwch yn cael cadarnhad bod eich cais wedi dod i law o fewn wythnos i'w gyflwyno, a byddwch yn cael dolen at ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae opsiwn i beidio â dweud ym mhob cwestiwn. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru yn prosesu data ymgeiswyr, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd.

Byddwch yn cael gwybod a ydych wedi cael eich rhoi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad o fewn tair wythnos i ddyddiad cau'r cais.

disability confident COMMITTED

We are a Living Wage Employer

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales

DO YOU?

Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

**Pecyn Swydd: Swyddog Cyllid**

# Disgrifiad Swydd Llawn

**Teitl:** Swyddog Cyllid
**Cyfnod:** Parhaol, Rhan-amser (21 awr yr wythnos)
**Cyflog:** £24,750 Cyfwerth ag Amser Llawn wedi'u haddasu'n pro rata.
**Lleoliad:** Mae ein swyddfa yng Nghaerdydd ond mae posibilrwydd i weithio hybrid.
**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:** Hanner dydd ddydd Iau 12 Medi 2024.
**Dyddiad y Cyfweliad:** Dydd Llun 30 Medi 2024.

Rydym yn chwilio am Swyddog Cyllid i helpu i gefnogi'r cwmni gyda gwaith gweinyddol ariannol. Dylech fod yn gyfarwydd â phrosesau cyfrifeg sylfaenol, dylech fod yn drefnus iawn ac yn gallu delio â thasgau gyda therfynau amser tynn. Mae'r Swyddog Cyllid yn rôl ganolog, gan weithio ar draws pob adran i ddarparu cymorth. Bydd deiliad y swydd yn gweithio i'r Rheolwr Cyllid, ac yn y pen draw i'r Prif Swyddog Gweithredu i sicrhau bod y systemau a'r prosesau ariannol yn cael eu dilyn i'r safon uchaf a bod safonau cydymffurfio'n cael eu cyflawni.

Bydd eich Dyletswyddau a Chyfrifoldebau yn cynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Amrywiaeth o dasgau sy'n ymwneud â chynnal y cyfriflyfr enwol, y cyfriflyfr prynu a chadw cofnodion dwbl cyffredinol.
- Sefydlu Cyflenwyr Newydd, gan sicrhau bod y manylion banc i gyd yn gywir.
- Sefydlu prosiectau newydd.
- Prosesu a thalu anfonebau cyflenwyr, treuliau staff a Cheisiadau am Daliadau Dyfarniad gan ddefnyddio ein porth bancio ar-lein.

- Monitro balansau banc a gwneud trosglwyddiadau mewnol yn ôl yr angen.
- Paratoi cysoniadau banc misol.
- Monitro ac olrhain anfonebau a dderbynnir gan sicrhau eu bod yn cael eu prosesu'n brydlon ac yn gywir. Monitro'r holl gostau, gan sicrhau bod y ffioedd yn cael eu hawdurdodi'n briodol a chadw at Ganllawiau presennol Ffilm Cymru, gan uwchgyfeirio materion os oes angen.
- Sicrhau bod costau'n cael eu cofnodi'n llawn ac yn gywir i adrannau a phrosiectau.
- Casglu dogfennau ategol priodol ar gyfer pob trafodyn, gan sicrhau bod llwybrau archwilio yn cael eu cynnal.
- Cefnogi'r Rheolwr Cyllid gyda'r prosesau Adroddiadau Rheoli Chwarterol, cyllidebu a rhagweld.
- Cyfrannu at wella systemau a phrosesau cyllid o fewn y sefydliad ehangach.
- Gweinyddu proses Cardiau Credyd, casglu derbynebau, cysoni a phostio'r cyfnodolion misol.
- Ffeilio ac archifo electronig.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Cyllid.
- Cyflawni'r holl gyfrifoldebau mewn ffordd sy'n cefnogi gwerthoedd Ffilm Cymru ac sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd, cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Ffilm Cymru a'r sector yn ehangach.

# Gofynion Sylfaenol ar gyfer y Swydd

## Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad o weithio mewn adran gyllid brysur.
- Gwybodaeth dda o weithdrefnau ariannol a chyfrifyddu.
- Sgiliau cyfrifiadurol cymwys gyda phrofiad cryf o ddefnyddio pecynnau meddalwedd swyddfa (Excel, Teams, Word, Outlook ac ati)
- Byddwch yn unigolyn sy'n gallu cymell eich hun ac sydd ag agwedd systematig, gan roi sylw manwl i fanylion a sicrhau cywirdeb.
- Gallu gweithio'n annibynnol, gan flaenoriaethu ac ailflaenoriaethu tasgau yn ôl pwysigrwydd a gweithio'n golegol gyda'r Rheolwr Cyllid a gweddill tîm Ffilm Cymru.
- Proffesiynol, annibynnol a chwrtais.

## Profiad a Sgiliau Dymunol

- Cymhwyster cyfrifyddu e.e. Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu (AAT) neu gymhwyster cyfatebol, neu'n astudio tuag at gymhwyster cyfrifyddu.
- Profiad o ddefnyddio meddalwedd ariannol fel SAGE 50 Accounts, Xero ac ati.
- Profiad o weithio i Gwmni Buddiannau Cymunedol neu elusen.
- Profiad mewn diwydiannau creadigol.
- Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

**Pecyn Swydd: Swyddog Cyllid**

# Ffilm Cymru

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau o Gymru ac mae wedi ymrwymo i hyrwyddo sector ffyniannus y gallwn i gyd fod yn falch ei bod yn perthyn i ni. Rydym ni'n gwneud hyn drwy'r ffyrdd canlynol:

- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu sefyllfa ffilm yng Nghymru a'r tu hwnt.
- Creu amgylchedd lle gall ffyrdd mwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd o weithio gael eu profi, eu hintegreiddio a'u rhannu.
- Cynnwys pobl o bob oed a gallu mewn dysgu creadigol
- Datblygu gweithlu sgrin y dyfodol drwy amrywiaeth o raglenni hyfforddi
- Buddsoddi mewn ffilmiau anarferol a mentrus a'u gwneuthurwyr, o'r cyfnod cynnar
- Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ledled Cymru

Rydym ni'n rheoli cyllid y Loteri Genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Ffilm Prydain, yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol. Mae ein gwaith yn cysylltu'n agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018, fe wnaethom lansio ein Cynllun Strategol 2018-2024, sydd ar gael yma.